# SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Cydlynydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli |
| **Atebol i:** | Pennaeth Cyfleoedd Myfyrwyr |
| **Cyflog:** | Gradd Cydlynydd Undeb Aber, Yn dechrau o £25,360 |
| **Oriau:** | Llawn amser, 36.5 awr yr wythnos |
| **Dyddiad Ysgrifennu:** | 11 Chwefror 2026 |

## PWRPAS Y RÔL

Hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr mewn cymdeithasau a galluogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn gwirfoddoli, gan ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a darparu cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i aelodau. Gweinyddu a chefnogi cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli i ddatblygu a rhedeg yn gynaliadwy ac yn effeithiol, a bod yn aelod staff allgymorth gweithredol sy'n rhagweithiol wrth fynd allan i siarad â myfyrwyr am gymdeithasau a gwirfoddoli.

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

### 1. Cymdeithasau a Phrosiectau Gwirfoddoli

- Darparu cyfle i fyfyrwyr greu ac ymuno â chymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli sy'n seiliedig ar ddiddordebau cyffredin
- Cefnogi sefydlu a chynnal grwpiau myfyrwyr a phrosiectau gwirfoddoli
- Gweithio gyda chydweithwyr i hyrwyddo cyfleoedd grwpiau myfyrwyr ar draws yr aelodaeth, yn enwedig ar adegau allweddol fel Wythnos Groeso a Re-Freshers
- Sicrhau bod pob cymdeithas a phrosiect gwirfoddoli yn gweithredu yn unol â pholisïau a gwerthoedd Undeb Aber, gan gynnwys darpariaeth iechyd a diogelwch
- Sicrhau bod cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli yn meddu ar yswiriant priodol a bod prosesau a pholisïau perthnasol yn cael eu dilyn
- Sicrhau bod cronfa ddata effeithiol o aelodaeth ar gael, gan adrodd ar lefelau cyfranogiad
- Gweithio gyda chydweithwyr PA ym maes rheoli cyfleusterau i ddarparu mynediad at gyfleusterau ar gyfer gweithgareddau grwpiau myfyrwyr
- Bod yn eiriolwr dros TimAber a hyrwyddo cysylltiad ag Undeb Aber
- Hwyluso a chefnogi cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli i weithredu'n effeithiol a rhedeg/mynediad at ddigwyddiadau gan gynnwys trafnidiaeth briodol (gan gynnwys darpariaeth minibys), llety, archebu ystafelloedd ac ati
- Cynnal cysylltiadau priodol a chyn-fyfyrwyr ac adran y cyn-fyfyrwyr

### 2. Partneriaeth Gymunedol a Digwyddiadau

- Arwain ar drefnu digwyddiadau blynyddol cymdeithasau a gwirfoddoli, gan gynnwys: Aber Challenge, ArtsFest, Celebrates, Dyddiau Gweithredu Gwirfoddolwyr a Wythnos Gwirfoddoli'r Myfyrwyr
- Cefnogi rhaglen digwyddiadau ehangach yr Adran Cyfleoedd, gan gynnwys:

Superteams, Aber7s a Varsity

**3. Gwirfoddoli**

- Bod yn brif hyrwyddwr staff ar egwyddorion gwirfoddoli, gan gydnabod cwmpas Undeb Aber, gan gynnwys cynrychiolwyr academaidd, arweinwyr grwpiau myfyrwyr, swyddogion rhan-amser, ymddiriedolwyr, a gwirfoddolwyr prosiectau a gweithgareddau
- Arwain ar raglen yr A-Team a'r Tim Nos, gan gefnogi'r Brifysgol i ddarparu gwirfoddolwyr myfyrwyr ar gyfer Wythnos Groeso ddiogel a phleserus
- Arwain ar redeg yr Hwb Gwirfoddoli ar wefan Undeb Aber, gan sicrhau bod sefydliadau a chyrff cymunedol yn deall sut i restru cyfleoedd a bod myfyrwyr yn defnyddio'r log oriau a'r cyfleoedd a restrir
- Sicrhau bod Undeb Aber yn cadw at egwyddorion gwirfoddoli drwy ei holl weithgareddau
- Trefnu cyfraniad gwirfoddol ar gyfer gweithredu digwyddiadau mawr Undeb Aber e.e. Ffair y Groeso
- Partneru â chyrff cymunedol i gael mynediad at gyfleoedd gwirfoddoli cymunedol lleol drwy ddiwrnodau gweithredu
- Cydnabod a gwobrwyo gwirfoddolwyr myfyrwyr am eu cyfraniad, gan eu helpu i fynegi gwerth gyrfaol eu profiad

**4. Arweinyddiaeth a Datblygu Sgiliau**

- Hyrwyddo cyfleoedd arweinyddiaeth grwpiau myfyrwyr fel rhai buddiol i yrfa a phrofiad myfyrwyr
- Cefnogi cymdeithasau i ethol eu pwyllgorau yn unol â pholisïau Undeb Aber, a gweithio gyda phrosiectau gwirfoddoli i sicrhau bod arweinwyr ar waith
- Arwain ar lansio a rhedeg y Wobr Sgiliau, gan weithio'n agos gyda'r adran Gyrfaoedd
- Gweithio gyda chydweithwyr i gefnogi cynllun blynyddol o hyfforddiant arweinyddiaeth i roi'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol i arweinwyr grwpiau
- Cefnogi swyddogion etholedig perthnasol i gynrychioli cyfleoedd myfyrwyr
- Gweinyddu a chefnogi mynediad at fflyd minibysiau Undeb Aber ar gyfer grwpiau myfyrwyr a chymunedol

**5. Dyletswyddau Eraill**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi sy'n cefnogi cyflawni'r tasgau uchod ac sy'n hyrwyddo buddiannau Undeb Aber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau Undeb Aber yn gadarnhaol
- Bod yn eiriolwr dros Undeb Aber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunyddiau gwybodaeth Undeb Aber
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, diogelu data a rheoliadau perthnasol eraill
- Cynorthwyo mewn digwyddiadau allweddol Undeb Aber drwy'r flwyddyn gan gynnwys Wythnos Groeso ac Etholiadau
- Mabwysiadu dull hyblyg o ran dyletswyddau a gwaith, gan fabwysiadu arddull tîm gyda'r holl adrannau
- Ystyried yr amgylchedd a mabwysiadu arferion gorau amgylcheddol
- Cyfrannu at brosiectau Undeb a chymryd rhan mewn grwpiau gwaith
- Dangos ymddygiadau a safonau Undeb Aber yn y gwaith bob dydd

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**
Gall y swydd ddisgrifiad hwn gael ei addasu ar unrhyw adeg yn dilyn ymgynghoriad â'r deiliad swydd. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl dasgau, ond mae'n nodi disgwyliadau craidd y rôl.

*Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.*

**MANYLEBAU PERSON – CYDLYNNU CYMDEITHASAU A GWIRFODDOLI**

| MEINI PRAWF | Gofyniad | Cais | Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| **CYMHWYSTERAU** | | | |
| Addysg gyffredinol dda, fel arfer hyd at Lefel A | Hanfodol | √ | |
| Trwydded yrru DU/UE lawn a dilys | Dymunol | √ | |
| Dealltwriaeth o fywyd prifysgol a phwysigrwydd cymdeithasau | Dymunol | | √ |
| **PROFIAD** | | | |
| Profiad o weithio'n effeithiol ar eich liwt eich hun | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o weithio o fewn Addysg Uwch, gyda myfyrwyr, a/neu gydag Undebau Myfyrwyr | Dymunol | | √ |
| Profiad o adeiladu a chynnal cymunedau amrywiol ar-lein ac wyneb yn wyneb | Dymunol | | √ |
| Profiad o reoli, cymell a hyfforddi gwirfoddolwyr | Dymunol | √ | √ |
| Profiad o ddefnyddio ystod eang o gyfryngau ar-lein gan gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol a rheoli cynnwys gwefannau | Hanfodol | √ | √ |
| Profiad o ddatblygu a chefnogi prosiectau a/neu ddatblygiad grwpiau | Hanfodol | √ | √ |
| **GWYBODAETH** | | | |
| Dealltwriaeth o faterion cyfredol mewn Addysg Uwch ac Undebau Myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Gwybodaeth am rôl cymdeithasau, clybiau a chymunedau myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth o botensial datblygu cymdeithasau a chlybiau | Hanfodol | √ | √ |
| **PRIODOLEDDAU/SGILIAU** | | | |
| Gallu gweithio'n effeithiol mewn tîm a grymuso eraill | Hanfodol | √ | √ |
| Hunanysgogol gyda meddylfryd cadarnhaol a thawel, yn enwedig dan bwysau | Hanfodol | | √ |
| Gallu bod yn greadigol ac arloesol wrth hyrwyddo gwasanaethau/gweithgareddau | Hanfodol | √ | √ |
| Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu eithriadol (ysgrifenedig ac ar lafar) | Hanfodol | √ | √ |
| Gallu creu a chynnal perthnasoedd gwaith cryf | Hanfodol | | √ |
| Gallu goresgyn rhwystrau mewn modd adeiladol | Hanfodol | √ | √ |
| Sgiliau rheoli prosiectau cadarn | Hanfodol | √ | √ |
| Hyderus ac yn gallu gwneud gwaith allgymorth brwdfrydig | Hanfodol | √ | √ |
| Sgiliau TG da, gan gynnwys Microsoft Office a dealltwriaeth o offer cyfryngau cymdeithasol | Dymunol | √ | √ |
| Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | √ | |
| **GWERTHOEDD AC ETHIGAU** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dymuniad i weithio mewn amgylchedd democrataidd dan arweiniad myfyrwyr | Hanfodol | | √ |
| Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal | Hanfodol | | √ |
| Dymuniad i weithio mewn sefydliad sy'n gwasanaethu aelodaeth amrywiol yn ddiwylliannol | Hanfodol | | √ |
| Ymroddedig, cadarnhaol, allblyg a chyfeillgar gyda meddylfryd "gallwn ni" | Hanfodol | √ | √ |
| Safonau uchel o onestrwydd personol | Hanfodol | | √ |